

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository:<https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/170832/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Loeffler, Marion 2024. Hanes y Fam Gymraeg. Barn 738 (73) , pp. 61-63.

Publishers page:

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



‘Y Fam Gymraeg’

Perthyn ‘Y Fam Gymraeg’ i Gymru fel Corau Meibion a’r wisg genedlaethol a ddyfeisiwyd gan Arglwyddes Llanofar ar gyfer cystadleuaeth Eisteddfod Caerdydd 1834. Tueddir cysylltu’r ystrydeb â’r de diwydiannol a golygfeydd trawiadol ffilmiau megis ‘How Green was my Valley’, gyda’r fam – ffigwr o awdurdod yn y gymuned a’r teulu – yn sefyll o flaen bwthyn glan a thaclus ar ddiwedd yr wythnos i, glowyr, aelodau gwrywaidd y teulu ollwng arian yr wythnos i’w ffedog. Ond mae ystrydeb y ‘fam Gymraeg’ yn hŷn, gan darddu yng nghyfnod y rhyfeloedd yn erbyn Gweriniaeth Ffrainc a Napoleon ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, cyfnod o newyn a dioddefaint a welodd hefyd ddechreuadau oes twristiaeth i Gymru.

Ddelweddwyd y fam Gymraeg yn gyntaf ym 1794, yn y llun ‘Llanfwrog’ gan yr artist Edward Pugh o Rhuthun. Gwelwn fam ifanc yn sefyll â’i chefn i’r gynulleidfa, gan affael yn dynn yn ei baban, sy’n ddiogel yn y siôl a lapiwyd o’i gwmpas. Darllenwn gydymdeimlad yn wynebau’r cwpl ar draws afonig sy’ ei hwynebu, a’i thristwch, o bosib am golli gŵr yn y rhyfel a wynebu dyfodol ansicr.¹ Adlewyrchwyd yr un teimladau ym marddoniaeth y cyfnod, gyda cherddi yn condemnio erchyllterau’r rhyfel drwy ddisgrifio mamau yn ‘gafael yn ei baban ar frest ofidus’,² ac awduron pamffledi radical, megis Thomas Roberts (Llwynrhudol) yn ceisio codi cymorth i’r ‘weddw dlawd ... fel na byddai arnynt eisiau’.³ Cynhyrfwyd bardd di-enw o Sir Ddinbych pan welodd mam yn casglu gwehilion grawn ar gyfer bara i’w ‘trembling babe’.⁴

Nid pawb a gydymdeimlai, gwaetha’r modd. I’r golwg allanol ymddangosai mamau Cymraeg yn fodau peryglus i’w plant fel i’r teithiwr. I’r Llydäwr Iarll Maudet de Penhouet, er enghraifft, roedd y fam a’i dywysodd o gwmpas castell Carreg Cennen ar lwybrau cul yn anghyfrifol am iddi fod ag ‘infant sucking at her breast wrapped up in her cloak’.⁵ Mae’r mamau sy’n cardota o gwmpas adfeilion Abaty Nedd, ‘pob un â baban ar ei chefn’, yn ei

¹ John Barrell, *Edward Pugh of Ruthin 1763–1813. ‘A Native Artist’* (Cardiff, 2013), p. 67.

² Barrell, *Edward Pugh of Ruthin*, p. 70.

³ Thomas Roberts, o Llwynrhudol, *Cwyn yn erbyn Gorthrymder, Yn ghyd a Sylwiadau ar hawl Esgobion, a’u Gweinidogion i Ddegymau, &c. wedi ei ysgrifenu er mwyn Gwerinos Cymru* (London, [1798]), in Marion Löffler (with Bethan Jenkins), *Political Pamphlets and Sermons from Wales, 1790–1805* (Cardiff, 2014), pp. 204, 225.

⁴ *Chester Chronicle*, 21 August 1795, in Löffler, *Welsh Responses*, pp. 146–8.

⁵ Maudet de Penhouet, *Letters describing a Tour through Part of South Wales* (London, 1797), p. 45.

atgoffa at famau chwyldroadol Paris.⁶ Dengys ei fraslun o fam Gymraeg fenyw ifanc mewn carpiâu, â'r bychan mewn siôl yn ei breichiau.

Ychwanegwyd sawl elfen at ddelwedd y fam Gymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ôl rhagair Arglwyddes Llanofar i'r cylchgrawn *Y Gymraes* ym 1850, y fam oedd brenhines y cartref am fod 'dynion yn ddibynnol arnynt am holl gysuron eu bywyd', a chyfleoedd gwaith i fenywod yn gynyddol brin, yn ardaloedd diwydiannol y de. Yn gysylltiedig â'r cartref roedd eu brif- gyfrifoldeb o warchod yr iaith Gymraeg, gan fod:

tynged eich meibion a'ch merched yn ei llaw chwi, Famau Cymru, na adewch iddynt ddysgu iaith hawdd yr estron nes iddynt hyd nes y medront iaith anhawdd eu gwlad eu hunain ... Ffurfiwch ym meddwl eich plant, a chefnogwch yn eich gŵyr, benderfyniad i amddiffyn iaith Cymru.⁷

Yr olwg oedd yn cyd-fynd â'r ddelwedd hon o'r Gymraes ddelfrydol oedd y wisg genedlaethol newydd a ddeilliodd o wisg ffarmwagedd de Cymru, ac a fyddai'n troi'n un o'r delweddau amlycaf o 'Dame Cymru' a'r Cymry ym mhapurau newydd Cymru a Lloegr erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Megis dwysáu a wna'r elfennau hyn yn nelweddau o'r Fam Gymraeg hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Yn ôl yr hanesydd Mari Williams yn y gyfrol '*Eu Hiaith a Gadwant? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*', gwelwyd menywod ardaloedd diwydiannol de Cymru fel 'colofn a sylfaen, bywyd a bywyd iaith', yn gyfrifol dros oroesiad teulu ac iaith. Saesneg oedd iaith addysg, adloniant cyfryngau torfol fel y sinema a'r radio, a'r sffêr cyhoeddus. Y cartref oedd cadarnle'r iaith a chyhoeddwyd ambell 'apêl at famau', megis un Walter Morgan o'r Rhondda:

Famau Cymru, ymwrolwch

Dewch ymaflwch yn y llyw

Dewch o ddifri ymagnïwch

Os am gadw'r iaith yn fyw;

Famau, rhowch yng ngenau'r plentyn

⁶ de Penhouet, *Letters describing a Tour through Part of South Wales*, p. 38. For the link between image and text, I am indebted to Peter Lord, *The Visual Culture of Wales. Industrial Society* (Cardiff, 1998), pp. 129–30 and Illus. 193.

⁷ Augusta Hall, 'Anerchiad i Gymraesau Cymru', yn *Y Gymraes*, I (1850), 8-11.

Y Gymraeg – iaith ore'r byd,

Dewch lledaenwch ein hiaith ddillyn

O! Parablwch hi o hyd.⁸

Er bod, fel y dengys Stephanie Ward ac eraill yn y gyfrol *Gender in Modern Welsh History*, famau Cymraeg yn cyfranogi yng ngwleidyddiaeth pleidiol a thorfol y cyfnod – wedi iddynt ennill y bleidlais llawn ym 1928 – i fenywod ardaloedd gwledig chwarae rôl blaenllaw ym myd gwaith cefn gwlad, ac i awduron megis Kate Roberts delweddu mamau gogledd Cymru mewn ffordd, parhaodd y traddodiad cymhleth o ddelweddu'r fam Gymraeg fel canolbwynt bywyd teuluol a dioddefwr. Yn nghanol llun anferth Vincent Evans 'A Welsh Family Idyll' yn Oriol Glyn Vivian, Abertawe, saif y fam, yn fenyw ifanc gyda baban mewn siôl gwyn (â'r gŵr yn sefyll i'r ochr), yng nghanol teulu estynedig hapus mewn tirwedd ddychmygol a gyfunai'r ddinesig â chefn gwlad. Y fam Gymraeg megis dioddefwr yng nghanol argyfyngau'r cymunedau glofaol oedd ffocws ffotograffwyr a gwneuthurwyr ffilmiau o'r tu allan, fel y dengys lluniau megis un 1939 yng nghyrol Peter Lord *Y Gymru Ddiwydiannol*. Mae glöwr a fuasai ar streic dan-ddae ar 292 awr yn cerdded ar hyd y stryd yn fuddugoliaethus, ei ferch fach ar ei fraich chwith, a'i wraig yn hongian oddi wrth ei fraich dde yn ei dagrau. Fel ym 1794, ni welwn ei hwyneb; ei hosgo ac ymateb y sawl o'i chwmpas sy'n dweud stori dioddefaint y fam Gymraeg, wedi adrodd drwy'r sylliad gwrywaidd.

Newidiodd y berthynas rhwng y rhywiau yn syfrdanol oddi ar y 1960au. Roedd mamau Cymraeg yn flaenllaw ym mhrotestiadau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, menywod o Gymru a gerddodd o Gaerdydd i Greenham Common ym 1981 i sefydlu gwersyll protest yno (a'r dynion yn carco'r plant), a bu mamau'r cymoedd ymhell o fod yn ddioddefwyr tawel yn ystod streic fawr 1984. Cewch glywed am fwy am fenywod Cymraeg cryf yr ardal yn sesiwn Archif Menywod Cymru yn Eisteddfod Rhondda, Cynon Tâf.

⁸ *Y Darian*, 24 Chwefror 1924, yn Mari A. Williams, 'Y Ferch a'r Gymraeg yng Nghymoedd Diwydiannol de Cymru 1914–1945', yn Geraint H. Jenkins a Mari A. Williams, *'Eu Hiaith a Gadwant? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd, 2000), 140.